UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 1 Rhagfyr 2023, i'r cyfeiriad canlynol:

Y Gangen Deddfwriaeth a Llywodraethiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir llenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

e-bost: YmgynghoriadCGA.WG47380@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau?

Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓

Sylwadau ategol

Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn hyblygrwydd. Mewn rhai achosion, ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth fod yr aelod cofrestredig yn perthyn i'r un categori ag y mae'r person sy'n wynebu'r achos wedi'i gofrestru ynddo. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod aelodaeth rhai categorïau'n fach iawn ac y gallai fod gwrthdaro buddiannau wrth geisio dod o hyd i rywun o'r un categori. Credwn, fodd bynnag, mewn rhai achosion y byddai hi'n fuddiol iawn cael rhywun o'r un categori aelodaeth ar y panel, gan y byddai'r unigolyn hwnnw'n llwyr ymwybodol o ofynion a heriau'r swydd.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r cynnig?

Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda'r rhan fwyaf o'r asesiad h.y. y posibilrwydd i gynnull pwyllgorau ynghynt. Nid oes unrhyw sôn yn yr asesiad am unrhyw bosibiliadau negyddol. Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau yn debygol o fod yn gadarnhaol neu yn niwtral, eto i gyd teimlwn y gallai rhai o'r effeithiau fod yn negyddol – er enghraifft, diffyg dealltwriaeth o rai swyddi/rolau a fydd yn arwain at ddiffyg empathi.

Cwestiwn 3 – A ydych yn cytuno â'n cynigion i wneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2015?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐

Sylwadau ategol

Cwestiwn 4 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadi'r Pwyllgorau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau ategol

Mae'n bosibl y gallai'r newid sicrhau y bydd mwy o bobl ar gael i fod yn gynrychiolwyr cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r diwygiadau arfaethedig neu eu newid er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐